Cenn@d

HYDREF 19 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 86

# Calan Gaeaf a Goleuni Crist

**Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd. (Ioan 1:5)**



Erbyn hyn mae Gŵyl Calan Gaeaf wedi tyfu i fod yn un o'r prif wyliau sy'n cael eu dathlu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, ac yn fasnachol yn werth bron cymaint â chyfnod y Pasg i siopau. Fe welwn archfarchnadoedd yn llawn o fygydau a phob math o geriach wedi eu creu i achosi ofn a dychryn. Gŵyl Americanaidd sy'n pwysleisio'r tywyll a'r dychrynllyd ydyw, gan orfoleddu mewn ofn a marwolaeth.

Mae'r dathliadau yng Nghymru wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y degawd diwethaf, ac mae'n siŵr gen i y bydd plant yn galw heibio gyda'r 'trick or treat'. Bydd llawer iawn o bartïon a disgos plant hefyd yn cael eu cynnal mewn pentrefi a threfi ledled Cymru. Fel eglwysi rydym yn naturiol yn bryderus am yr effaith negyddol mae hyn yn ei gael ar fywydau plant, ac yn poeni hefyd am yr henoed sy'n cael eu dychryn gan yr ymwelwyr dieflig. Ein hymateb ar y cyfan felly yw anwybyddu'r holl beth. Ond cofiwn hefyd fod y cyfnod yma'n Ŵyl yr Holl Saint, a bod llawer y gallwn ei wneud fel unigolion ac eglwysi i atgoffa ein cymdeithas mai gwell o lawer yw byw yn y goleuni na chuddio yn y tywyllwch.



## Rhannu ychydig o Newyddion Da

Fel unigolion, beth am i ni agor y drws i blant a fydd yn galw, gan rannu rhywbeth o newyddion da Iesu Grist gyda nhw? Fe fydd plant yn gobeithio cael fferins, ond yn ogystal â rhoi fferen neu ddwy, beth am roi llyfryn Cristnogol neu gomig Cristnogol iddynt yn ogystal. Mae gennym gopïau o gomig â'r teitl *Stori Fawr Duw*, sydd ar gael i'w prynu am 50c yr un, sy'n pwysleisio bod Iesu yn Oleuni'r Byd. Neu mae modd cael copi o lyfryn gan Scripture Union, sef 'Iesu yw Goleuni'r Byd'.

## Parti Goleuni

Yn ogystal, mae dau adnodd gwerthfawr ar gael sy'n galluogi eglwysi i drefnu digwyddiadau 'gwahanol' adeg Calan Gaeaf. Mae Scripture Union wedi darparu pecyn o adnoddau ar gyfer cynnal 'Parti Goleuni' sy'n llawn syniadau am gemau a gweithgareddau yn sôn am Iesu fel goleuni'r byd. Yn hytrach na dychryn plant a'u cyflwyno i bethau tywyll a dieflig, dyma adnodd sy'n ein helpu i gyflwyno newyddion da. Ceir ynddo nifer o syniadau da ar sut i gynnal noson hwyliog gyda phlant, yn llawn crefft, gemau a gweithgareddau.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'r adran Calan Gaeaf ar wefan Cyngor yr Ysgolion Sul: Calan Gaeaf a Goleuni Crist - Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru (ysgolsul.com)

Mae'n gloywi, llewyrchu, disgleirio, pelydru,
Hebddo, mae'n dywyll, does dim yn weladwy –
Dim lliw, dim harddwch, na dim i'n rhyfeddu.
Am beth ydw i'n sôn? Wel, ie – goleuni!

Yr heulwen, lampau, tortshys, canhwyllau –
Cymaint o ffyrdd y cawn ni ein golau…
Ond wyddwn i ddim, fod yna ddyn,
Sydd hefyd yn olau ohono ei hun!

Hei, aros am funud. Nid dyma'r gwirionedd!
Mae gan bobl groen, ac esgyrn a dannedd!
Pwy all hwn fod? Mae hyn yn fy synnu.
O ble daeth y dyn? Beth wnaeth o – tywynnu?

Ei enw yw Iesu, ac ef yw mab Duw.
I ddangos ei gariad, daeth yma i fyw.
'Goleuni wyf fi, fe ddeuthum i'r byd
I ddangos y ffordd i'r bobl i gyd.'

Ond sut all hyn fod? All dyn fod yn olau?
Ystyriwn ymhellach, a gwrandawn ar ei eiriau.
Mae hyn yn gwneud synnwyr, fe welwn yn glir
Fod yr hyn a ddywedodd o hyd yn wir.

Mae'r golau yn dangos y ffordd sydd yn dda,
Pryd i ddweud 'ie' a phryd i ddweud 'na'.
Mewn twyllwch, mae golau yn difa pob braw,
Mae'n dangos y gwir, beth bynnag a ddaw.

Iesu'r goleuni, i mi ac i ti,
A fu'n byw yn ein plith, i ddangos i ni
Cymaint mae Duw'n ein caru i gyd,
Trwy'r da a thrwy'r drwg, dyma oleuni'r byd.

Gyda Iesu'r goleuni, mae'n cynnig i ni
Y ffordd orau i fyw a hedd oddi fry.
Llawenydd a gobaith yw ei roddion mawr
Mae yno i'n dal ni, os syrthiwn i lawr.

Ni fyddwn yn unig, ei gwmni a gawn.
Mae yno bob amser, ble bynnag yr awn.
Bydd ef yn ein harwain a'n helpu ni gyd
I fod fel goleuni i bawb yn y byd.

Cânt weld mawredd Duw, a phrofi ei gariad,
Dyma ei gynllun, hyn oedd ei fwriad
Iesu ei fab yn oleuni i'r byd
Yn gwneud y gwahaniaeth i'w bobl i gyd.

Y peth da i ti, yw dy fod wedi canfod
Mai goleuni yw Iesu, sy'n fwy na 'thywyniad'.
A nawr dyma'r amser i ti benderfynu,
Ac os wnei di ofyn, ef fydd dy oleuni.

*Adnodd newydd ar gyfer 2022 yw llyfryn o'r enw 'Iesu yw'r Goleuni', lle geir cerdd wedi ei hysgrifennu gan Jemma Willis a'i haddasu i'r Gymraeg gan Delyth Wyn Davies. Beth am ddarllen hon gydag unrhyw blant ddowch ar eu traws dros yr wythnos nesaf. Mae'r llyfrynnau Cymraeg ar gael o wefan Scripture Union.*

*Hoff Emynau'r Cymry*, gol. Robert Nicholls
**Tudalen 2**

Y Brawd Andrew (1928–2022)
**Tudalen 4**

O Gefn Gwlad
**Tudalen 5**